Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Cymer Afan
**Stryd Margam**
**Cymer**
**Port Talbot**
**SA13 3EE**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2020**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Cymer Afan

Mae Ysgol Gynradd Cymer Afan yng Nghymer yn awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot. Mae 77 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 14 o ddisgyblion meithrin sy'n mynychu'n rhan-amser. Mae pedwar dosbarth oedran cymysg.

Cyfran gyfartalog y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim dros y tair blynedd ddiwethaf yw tua 34%. Mae hyn ymhell uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 18%. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan ryw 35% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig. Mae hyn gryn dipyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 21%. Mae bron pob un o'r disgyblion o dras gwyn Prydeinig, ac yn siarad Saesneg gartref. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref.

Mae Ysgol Gynradd Cymer Afan, ynghyd ag Ysgol Gynradd Glyncorrwg, Ysgol Gynradd Croeserw ac Ysgol Gynradd Pen Afan, yn rhan o Ffederasiwn Ysgolion Cwm Afan Uchaf, a ffurfiwyd ym mis Medi 2013. Roedd y ffederasiwn yn un o bum ysgol yn flaenorol, ond lleihawyd hyn i bedair ysgol gynradd ar ôl cau Ysgol Gyfun Cymer Afan ym mis Gorffennaf 2019.

Dechreuodd pennaeth y ffederasiwn yn ei swydd ym mis Medi 2019; roedd wedi bod yn arweinydd y sector cynradd er 2013. Mae dysgwr arweiniol gan bob ysgol gynradd, sy'n gyfrifol am gynnal yr ysgol o ddydd i ddydd.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth iddynt symud trwy'r ysgol, yn aml o fannau cychwyn isel. Maent yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn dda, ac yn gwneud cynnydd da iawn wrth ddysgu Cymraeg. Maent yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu. Un o nodweddion hynod effeithiol hyn yw'r ffordd y mae disgyblion o bob oedran yn asesu ac yn gwella eu gwaith. Caiff disgyblion gyfleoedd buddiol i ddylanwadu ar yr hyn sy'n digwydd yn yr ysgol. Maent yn awyddus i ymgymryd â chyfrifoldebau a dylanwadu ar newid. Mae pob un o'r staff yn gwrando ar eu safbwyntiau, ac yn gweithredu yn unol â nhw, ac mae hyn yn cyfrannu'n dda at ddiwylliant yr ysgol o barch ar y ddwy ochr.

Mae'r dysgwr arweiniol yn darparu arweinyddiaeth hynod effeithiol i'r ysgol o ddydd i ddydd. Mae'n sicrhau bod staff yn gweithio'n dda fel tîm gyda ffocws clir ar godi safonau a gwella lles disgyblion. Ceir ethos digynnwrf a meithringar ar draws yr ysgol, a cheir perthnasoedd cryf â rhieni a'r gymuned leol.

Ers sefydlu'r ffederasiwn ysgolion cynradd ym mis Medi 2019, mae'r pennaeth, gyda chymorth staff a llywodraethwyr, wedi sicrhau mai lles y disgyblion yw'r brif flaenoriaeth. Mae hyn yn amlwg yn y gofal, y cymorth a'r arweiniad a roddir i ddisgyblion ar draws y ffederasiwn o ysgolion. Mae arweinwyr y ffederasiwn yn dechrau sefydlu diwylliant o gydweithio a rhannu, sydd o fudd i les staff a disgyblion. Mae'r diwylliant hwn yn gosod naws gadarnhaol ar gyfer y gwaith ym mhob un o ysgolion y ffederasiwn. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yr ysgol wedi sicrhau bod safonau addysgu a phrofiadau dysgu yn gyson dda ym mhob un o'r ysgolion o fewn y ffederasiwn. Megis dechrau datblygu y mae prosesau hunanwerthuso a threfniadau i rannu arfer orau mewn addysgu, ac mewn darpariaeth ar gyfer medrau.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwelliant** |

## Argymhellion

A1 Gwella darpariaeth i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion, yn enwedig eu medrau darllen cynnar

A2 Cryfhau cyfraniadau arweinwyr ar bob lefel ar draws y ffederasiwn, yn enwedig at waith gwerthuso a gwella

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol â medrau a gwybodaeth islaw'r lefel sy'n ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran, yn enwedig eu medrau siarad. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau ar draws y cwricwlwm. Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd cryf tuag at eu targedau unigol.

Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ac yn dilyn cyfarwyddiadau yn dda. Wrth iddynt symud trwy'r cyfnod, maent yn ehangu eu defnydd o eirfa yn dda ac yn ail-ddweud storïau cyfarwydd gan ddilyn dilyniant penodol yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae disgyblion yn y dosbarth derbyn a Blwyddyn 1 yn dilyn map stori 'The Tiger Who Came to Tea'. Maent yn cofnodi eu perfformiad ac yn ei werthuso i chwilio am ffyrdd i wella. Ar draws y cyfnod sylfaen, mae mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen effeithiol. Maent yn deall ac yn siarad am nodweddion syml gwahanol destunau. Fodd bynnag, nid oes gan leiafrif o ddisgyblion wybodaeth ddigon cadarn am seiniau a chyfuniadau o lythrennau i'w helpu i ddadgodio geiriau newydd yn llwyddiannus. Ym Mlwyddyn 1, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu disgrifiadau clir gan ddefnyddio ynganiad syml a chywir. Er enghraifft, maent yn disgrifio ci anwes sy'n ymweld â'r lleoliad gan ddefnyddio gweithgareddau a ddewiswyd yn ofalus. Mae llawer o ddisgyblion ym Mlwyddyn 2 yn dechrau golygu eu gwaith yn bwrpasol i wella eu defnydd o eirfa a chywiro camgymeriadau sillafu. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn sillafu geiriau y maent yn eu defnyddio'n rheolaidd yn gywir bob amser.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando ar ddisgyblion a phobl eraill yn dda, ac yn cyfrannu'n feddylgar at drafodaethau dosbarth. Defnyddiant iaith benodol yn briodol wrth nodi sut i wella eu gwaith ysgrifenedig. Nid yw ychydig o ddisgyblion bob amser yn defnyddio'r ffurf ramadegol gywir, ond maent yn dechrau adnabod a chywiro hyn pan fydd yn ymddangos yn eu gwaith ysgrifenedig. Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae llawer ohonynt yn darllen â rhuglder a mynegiant. Maent yn rhoi ystyriaeth dda i atalnodi, ac yn defnyddio cyd-destun brawddegau i ddarganfod ystyr geiriau anghyfarwydd. Mae disgyblion sy'n fwy abl yn disgrifio'r technegau llenyddol a ddefnyddir gan awduron i ennyn diddordeb y darllenydd, ac yn defnyddio rhesymu a dod i gasgliad yn dda i gael ystyr o destunau. Mae ysgrifennu'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Daw disgyblion yn gynyddol fedrus yn gwirio cywirdeb eu gwaith a chywiro camgymeriadau sillafu ac atalnodi.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da iawn o ran datblygu eu medrau Cymraeg wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Yn y dosbarth meithrin, mae disgyblion yn ymateb yn gywir i orchmynion syml yn Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y dosbarth derbyn a Blwyddyn 1 yn gofyn ac yn ateb cwestiynau syml. Ym Mlwyddyn 2, maent yn dechrau defnyddio cysyllteiriau yn eu hatebion, er enghraifft pan fyddant yn mynegi ffafriaeth neu atgasedd am wahanol fwydydd ac yn dangos pa un sydd iachach i'w fwyta. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ystod eang o batrymau iaith, ac yn cynnal sgyrsiau yn hyderus. Yn ystod gwasanaethau Cymraeg, mae bron pob un o'r disgyblion yn ymuno'n frwdfrydig â chaneuon a gweddïau cyfarwydd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn effeithiol wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Erbyn diwedd Blwyddyn 1, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau rhif sylfaenol da, a defnyddiant y rhain yn dda i fynd i'r afael â phroblemau syml, fel adio arian mewn caffi. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ym Mlynyddoedd 2 a 3 yn deall algebra sylfaenol, ac yn defnyddio'r medrau hyn i ddatrys codau syml. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ym Mlwyddyn 6 yn cymhwyso eu medrau rhifedd ar gyfer ystod o broblemau, ac mewn gwahanol gyd-destunau. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn llunio ac yn dehongli graff llinell i gymharu'r tymheredd blynyddol yn yr Arctig, yr Antarctig a Chymru.

Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas wrth wella eu medrau mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Mae disgyblion ar ddechrau'r cyfnod sylfaen yn defnyddio TGCh i'w helpu i wella eu medrau mewn llythrennedd a rhifedd. Er enghraifft, maent yn creu fideo ohonyn nhw eu hunain yn darllen llyfrau, ac wedyn yn rhannu'r rhain gartref ag oedolyn. Ar ddiwedd y cyfnod sylfaen, mae disgyblion yn defnyddio platfform HWB yn hyderus i storio a rhannu eu gwaith, ac yn creu graffiau bar am y bwyd sy'n cael ei fwyta gan ofodwyr. Maent yn defnyddio'r rhyngrwyd yn briodol ar gyfer ymchwil annibynnol, ac yn creu taflenni gwybodaeth yn cyfuno testun a lluniau. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn defnyddio amrywiaeth o gymwysiadau ac yn defnyddio TGCh i gydweithio a myfyrio ar eu dysgu. Er enghraifft, maent yn creu, yn cyflwyno ac yn ffilmio eu cyflwyniadau i'r dosbarth. Defnyddiant y recordiadau hyn yn llwyddiannus i fyfyrio ar y medrau y maent wedi'u defnyddio, ac awgrymu meysydd i'w gwella.

### Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae pob un o'r disgyblion yn hoffi dod i'r ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno. Mae disgyblion hŷn yn barod i gynorthwyo disgyblion iau â'u gwaith ac yn ystod amser chwarae, ac mae pob un o'r disgyblion yn falch o gymryd rhan mewn gwasanaethau ac ym mywyd ehangach yr ysgol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn deall pwysigrwydd ffordd iach o fyw, ac yn mwynhau cymryd rhan yn llawn mewn ystod o weithgareddau i ddatblygu eu ffitrwydd corfforol, fel sesiynau aerobig ar-lein ac ymarferion rhedeg dyddiol. Mae disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn brwsio eu dannedd yn annibynnol ar ôl cinio, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn deall y gwahaniaeth rhwng bwyd a diod iach ac afiach. Trwy waith y dewiniaid digidol, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwybod sut i gadw'n ddiogel wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgymryd yn llawn â gweithgareddau yn gysylltiedig â'u datblygiad personol a chymdeithasol, fel 'cofrestru' ar ddechrau'r diwrnod ysgol. Maent yn cyfrannu'n sensitif at drafodaethau yn ystod sesiynau lles, ac yn hapus i rannu eu meddyliau, tra'n parchu safbwyntiau pobl eraill.

Mae llawer o ddisgyblion ym mhob dosbarth yn ymgysylltu'n weithredol â gwaith yr ysgol. Mae'r cyngor ysgol wedi hen ennill ei blwyf, ac mae'n nodi meysydd i'w gwella yn effeithiol trwy gynnal teithiau dysgu. Mae'n cefnogi'r gymuned ehangach, ac yn gweithio ochr yn ochr â hi. Er enghraifft, fe wnaeth aelodau o'r gymuned drefnu casglu dillad ar gyfer pobl ddigartref yn yr ardal, a chysylltu â'r trefnydd cymunedol lleol, a arweiniodd wasanaeth yn gysylltiedig â'r materion a godwyd. Mae'r Criw

Cymraeg yn arwain gwasanaethau wythnosol i hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant, ac mae'r pwyllgor eco yn cymryd rôl weithredol mewn hyrwyddo ailgylchu a lleihau defnydd o blastig.  Mae disgyblion iau yn gwneud awgrymiadau rheolaidd ynglŷn â beth hoffent ei ddysgu, a sut.  Er enghraifft, mae gan ddisgyblion yn y dosbarth derbyn a Blwyddyn 1 gyllideb i'w gwario ar adnoddau ystafell ddosbarth.  Mae disgyblion hŷn yn myfyrio ar eu gwaith, a gwaith disgyblion eraill yn dda, ond caiff eu cyfraniad at gynnwys yr hyn y maent yn ei ddysgu mewn gwersi ei arwain gan yr athro yn bennaf.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda yn ystod gwersi, ac o gwmpas yr ysgol.  Maent yn dangos parch at ei gilydd, ac yn gweithio ac yn chwarae gyda'i gilydd yn dda.  Mae bron pob un ohonynt yn foesgar a chwrtais, ac yn rhyngweithio â phobl sy'n ymweld â'r ysgol mewn modd hyderus a chyfeillgar.

Mae gan bron bob un o'r disgyblion agweddau cadarnhaol at ddysgu, ac maent yn gweithio'n hyderus ac yn effeithiol mewn ystod o gyd-destunau.  Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ym mhob dosbarth yn gweithio'n annibynnol ac yn cwblhau tasgau yn llwyddiannus, a llawer o ddisgyblion hŷn yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig, sy'n galluogi iddynt gwblhau darnau hwy o waith ysgrifenedig, er enghraifft ysgrifennu cofiant am Winston Churchill.  Pan fyddant yn wynebu gweithgareddau datrys problemau heriol, mae llawer o ddisgyblion yn dal ati i ganolbwyntio, ac yn gweithio gyda'i gilydd fel tîm ar y cyd ac yn effeithiol am gryn amser.  Er enghraifft, bu disgyblion Blwyddyn 2 yn gweithio gyda'i gilydd yn dda mewn gweithgaredd heriol yn yr awyr agored, yn adeiladu arwydd mawr â'r geiriau 'The Great Fire of London' wedi'u sillafu arno.

Mae presenoldeb disgyblion yn cymharu'n ffafriol â phresenoldeb y rhai mewn ysgolion tebyg, sy'n gosod yr ysgol yn gyson yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg am y tair blynedd ddiwethaf.

**Addysgu a phrofiadau dysgu:  Da**

At ei gilydd, mae athrawon yn darparu cwricwlwm amrywiol a chytbwys ar gyfer disgyblion, sy'n bodloni anghenion y rhai o bob oedran a gallu yn briodol.  Defnyddiant gynlluniau gwaith cyhoeddedig yn briodol i'w cynorthwyo â syniadau ar gyfer testunau'r cwricwlwm a gweithgareddau dysgu.  Maent yn cynllunio ar y cyd ar draws y ffederasiwn, ac mae hyn yn eu helpu i sicrhau bod disgyblion yn cael ystod eang a theg o brofiadau dysgu.  Mae athrawon yn addasu eu cynllunio, pan fydd angen, i sicrhau bod disgyblion yn cael dyfnder ac amrywiaeth ddigonol yn eu dysgu.

Yn y cyfnod sylfaen, mae oedolion yn darparu cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion gyfrannu at eu dysgu.  Er enghraifft, wrth ddechrau testun newydd ar fwyd, mae disgyblion iau yn gofyn cwestiynau diddorol i ymchwilio iddynt, fel, 'Ydyn nhw'n gwisgo dillad arbennig mewn archfarchnad, ac i ble mae'r arian yn mynd pan fydd y til yn llawn?'  Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn trafod yr hyn y maent eisoes yn ei wybod, a'r hyn yr hoffent ei ddarganfod, ond nid ydynt bob amser yn cael digon o gyfleoedd i arwain cyfeiriad eu dysgu.

Mae'r ysgol yn darparu llawer o ymweliadau buddiol â mannau o ddiddordeb sy'n cysylltu'n dda â thestunau disgyblion, yn eu helpu i ddatblygu eu medrau bywyd, ac yn cefnogi eu gwerthfawrogiad o amgylchedd naturiol Cymru.  Er enghraifft, yn ystod

ymweliad preswyl â Pharc Margam, bu disgyblion hŷn yn ymchwilio i’r modd y mae dŵr yn ffurfio’r tir trwy astudio Afon Nant Phillip. Maent yn mesur dyfnder a lled yr afon, ac yn datrys problemau yn llwyddiannus ynglŷn â sut i adeiladu lloches effeithiol yn yr awyr agored.

Mae athrawon yn datblygu medrau llythrennedd disgyblion yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm. Maent yn addysgu medrau iaith penodol yn dda ac yn darparu cyfleoedd buddiol iddynt ymarfer y medrau hyn mewn darnau ysgrifennu estynedig. Er enghraifft, ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn ymchwilio, yn cynllunio ac yn ysgrifennu cofiannau o Winston Churchill ar ôl datblygu eu medrau gwneud nodiadau. Mae sesiynau darllen dan arweiniad yn hyrwyddo cariad at ddarllen ac yn helpu disgyblion i ddeall nodweddion gwahanol destunau. Fodd bynnag, nid yw gweithgareddau darllen bob amser yn darparu cyfleoedd rheolaidd ar gyfer disgyblion iau i ddatblygu eu gwybodaeth am ffoneg yn ddigon da.

Mae athrawon yn datblygu medrau rhifedd a TGCh disgyblion yn effeithiol, ac yn cynllunio cyfleoedd da iddynt gymhwyso’r rhain ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, i ymateb i lyfr y dosbarth, sef ‘The Enormous Turnip’, mae disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn pwyso llysiau’n gywir ac yn darganfod y trymaf. Ym Mlwyddyn 6, mae disgyblion yn defnyddio taenlenni electronig i greu a chymhwyso fformiwla i ymchwilio i gostau gwahanol gitiau chwaraeon.

Ar draws y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi hen ennill eu plwyf. Caiff disgyblion gyfleoedd da i symud yn rhydd rhwng tasgau o ansawdd uchel, ac o ganlyniad, maent yn datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol, brwdfrydig a hyderus. Cânt gyfleoedd pwrpasol i elwa ar yr amgylchedd dysgu yn yr awyr agored.

Mae’r ysgol yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o iaith, diwylliant a thraddodiadau yn effeithiol. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion yn ymweld â Pharc Coedwig Afan, lle maent yn dysgu am arlunwyr a beirdd o Gymru, ac am hanes yr ardal leol. Mae athrawon yn cynllunio’n bwrpasol ar gyfer datblygu’r Gymraeg. Maent yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion arwain gwasanaethau yn Gymraeg, ac yn trefnu boreau coffi iddyn nhw a’u rhieni ddysgu ac ymarfer yr iaith gyda’i gilydd. Caiff y ddarpariaeth hon effaith gadarnhaol ar allu a hyder disgyblion i siarad Cymraeg o gwmpas yr ysgol.

Mae pob un o’r staff yn datblygu perthnasoedd gwaith eithriadol o gadarnhaol a chefnogol gyda disgyblion, ac mae ganddynt strategaethau effeithiol i reoli eu hymddygiad. Mae dysgu yn symud â chyflymdra priodol, ac mae gweithgareddau’n darparu lefel dda o her ar gyfer disgyblion o bob gallu. Mae oedolion yn holi disgyblion yn fedrus i ymestyn eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth yn llwyddiannus.

Mae’r rhan fwyaf o athrawon yn rhoi adborth pwrpasol i ddisgyblion yn ystod gweithgareddau sy’n eu helpu i wella eu gwaith. Maent yn nodi nodweddion da a meysydd sydd angen sylw pellach. Yn y cyfnod sylfaen, maent yn cymryd amser i adolygu a siarad am waith a chyflwyniadau y mae disgyblion wedi eu lanlwytho yn annibynnol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o sut bydd disgyblion yn gwella eu gwaith eu hunain trwy olygu ac ailddrafftio.

O’r dosbarth derbyn, mae oedolion yn annog disgyblion i fyfyrio ar eu gwaith eu hunain a hunanasesu pa mor dda y maent wedi’i gwblhau gan ddefnyddio systemau sy’n briodol i oedran. Wrth i ddisgyblion symud trwy’r ysgol, maent yn datblygu medrau defnyddiol i edrych ar eu gwaith eu hunain, a gwaith disgyblion eraill yn feirniadol i nodi meysydd i’w gwella. Mae disgyblion hŷn yn gwerthfawrogi’r adborth o ansawdd uchel gan eu cyfoedion yn y dosbarth, ac mae hyn yn eu helpu i fod yn fwy myfyriol am eu gwaith eu hunain. O ganlyniad, erbyn iddynt adael yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn ddysgwyr hyderus a galluog.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan yr ysgol ethos cynnes a chynhwysol, sy’n addas ar gyfer teuluoedd. Mae diwylliant yr ysgol yn hyrwyddo perthnasoedd cadarnhaol a gwerthoedd ar y cyd, sef gwaith caled, gonestrwydd a thegwch. Mae staff yn rheoli ymddygiad disgyblion yn hynod effeithiol ac yn galluogi iddynt gael cyfleoedd da i drafod a chyfrannu at eu siarteri dosbarth.

Mae trefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, a datblygu dealltwriaeth disgyblion o ffordd iach o fyw. Er enghraifft, mae staff yn annog disgyblion i gymryd rhan yn y filltir ddyddiol ac mewn sesiynau aerobeg. Mae rhaglen o sgyrsiau ac ymweliadau yn rhoi gwybod i ddisgyblion yn effeithiol am ystod eang o faterion lles corfforol, cymdeithasol ac emosiynol, fel hylendid sylfaenol ac addysg cydberthynas. Mae ymarferwyr yn rhoi negeseuon cyson a rheolaidd i ddisgyblion am aros yn ddiogel ar-lein.

Mae staff yn annog y disgyblion i gymryd rôl weithgar ym mywyd a gwaith yr ysgol trwy grwpiau sydd wedi hen ennill eu plwyf, fel y cyngor ysgol, y pwyllgor eco a’r Criw Cymraeg. Mae ymweliadau â’r caffi lleol, yr archfarchnad a’r orsaf dân ym Maesteg, yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o’r gymuned leol yn llwyddiannus. Mae disgyblion yn ymweld â’r ganolfan goedwig gyfagos yn Afan Argoed hefyd i gefnogi eu dealltwriaeth ehangach o Gymru, ei diwylliant a’i threftadaeth, yn ystod yr Wythnos Gymraeg.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau addas â gwasanaethau cwnsela a chymorth iechyd meddwl i helpu bodloni anghenion ei disgyblion sydd fwyaf agored i niwed. Mae sesiynau cofrestru dyddiol a gweithgareddau lles effeithiol, fel amser cylch, yn cefnogi’r gwaith hwn yn dda ar gyfer yr holl ddisgyblion. Mae gan staff ddealltwriaeth dda iawn o’r disgyblion yn eu gofal, ac maent yn eu cynorthwyo’n briodol ac yn sensitif i fagu eu hyder a’u hunan-barch, gan weithio’n agos â’u rhieni. Ceir perthnasoedd cryf â rhieni ac mae’r ysgol yn eu hysbysu’n dda am gynnydd eu plentyn, a digwyddiadau yn yr ysgol.

Caiff disgyblion gyfleoedd gwerth chweil i ddatblygu eu dealltwriaeth o faterion ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae gwasanaethau a pherfformiadau, sy’n cael eu harwain gan staff, disgyblion a’r gweinidog lleol, yn helpu hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o ystod eang o faterion. Maent yn darparu cyfleoedd da i ddisgyblion ddathlu eu cyflawniadau yn yr ysgol a’r gymuned, a hyrwyddo’r Gymraeg a’i diwylliant yn llwyddiannus.

Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni’r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae staff yn olrhain cynnydd disgyblion yn effeithiol, ac mae uwch arweinwyr ac athrawon yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod anghenion dysgwyr a sicrhau bod ymyriadau'n llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn defnyddio data yn effeithiol bob amser i nodi materion ehangach o fewn yr ysgol, er enghraifft safonau a chynnydd disgyblion mewn medrau darllen cynnar.

Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yn gweithio'n effeithiol iawn ochr yn ochr ag aelodau staff eraill i nodi dysgwyr sydd angen cymorth. Mae staff yn defnyddio ystod addas o offer i asesu'r modd y mae disgyblion yn caffael iaith, eu cynnydd mewn llythrennedd a rhifedd, presenoldeb a lles. Maent yn cynllunio darpariaeth addysgu ac ymyriadau effeithiol iawn, sy'n arwain at ddeilliannau cadarnhaol ar gyfer y rhan fwyaf o ddisgyblion.

Mae athrawon yn gosod targedau priodol ar gyfer disgyblion unigol, y maent yn eu defnyddio'n dda i lywio cynllunio. Defnyddiant ddulliau ystyriol, gan gynnwys y llyfrau 'Superstar Books', sy'n galluogi athrawon a staff cymorth i weithio gyda'i gilydd yn effeithiol i gynorthwyo disgyblion ac edrych ar gynnydd. Maent yn gwerthuso cynnydd yn rheolaidd i fireinio a gwella darpariaeth a myfyrio ar yr hyn sydd wedi gweithio'n dda ar gyfer disgyblion unigol.

Mae staff yn cysylltu'n dda â rhieni i gynnal adolygiadau rheolaidd o gynlluniau unigol disgyblion. Maent yn rhoi cymorth ychwanegol defnyddiol iddynt fel y gallant helpu eu plant gartref a defnyddio cyfathrebu digidol yn effeithiol i rannu a dathlu cynnydd disgyblion tuag at eu targedau unigol.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf ag amrywiaeth o asiantaethau allanol i gynorthwyo athrawon a disgyblion. Er enghraifft, mae sesiynau galw i mewn â'r gwasanaeth seicoleg addysg yn galluogi athrawon a staff cymorth i ddatblygu eu harbenigedd wrth ddelio â disgyblion sy'n agored i niwed. Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yn cysylltu'n effeithiol â'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg yn lleol, sy'n galluogi ymarferwyr i gynorthwyo disgyblion wrth iddynt symud i'r ysgol.

Mae adroddiadau blynyddol ac adroddiadau'r cyfnod sylfaen yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i helpu rhieni i gefnogi dysgu eu plentyn gartref. Mae gan yr ysgol systemau effeithiol ar gyfer hyrwyddo presenoldeb da.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwelliant

Mae'r dysgwr arweiniol yn darparu arweinyddiaeth gref ac effeithiol ar gyfer yr ysgol o ddydd i ddydd. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel o staff a disgyblion, ac mae'n arwain yn effeithiol, trwy esiampl. Mae ganddi ddyheadau uchel ar gyfer disgyblion, ac mae hyn yn cyfrannu at y diwylliant dysgu cadarnhaol ar draws yr ysgol. Ceir ffocws clir ar wella addysgu a dysgu ar draws yr ysgol, ac mae'r dysgwr arweiniol yn sicrhau bod ymarferwyr yn ymgymryd â strategaethau cytûn ar gyfer gwella yn gyson.

Ers ymgymryd ag arweinyddiaeth gyffredinol y ffederasiwn ym mis Medi 2019, mae'r pennaeth wedi gweithio'n llwyddiannus i ddatblygu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer sicrhau lles, a meithrin disgyblion ar draws y ffederasiwn. Mae'r weledigaeth hon yn cynnwys ymrwymiad i ddiwallu anghenion corfforol, cymdeithasol ac emosiynol disgyblion. Mae'r gwaith hwn yn effeithiol ac yn sicrhau bod pob un o'r ysgolion yn elwa ar awyrgylch digynnwrf lle mae disgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn ymgysylltu â'u dysgu yn gadarnhaol.

Mae'r weledigaeth i hyrwyddo cydweithio rhwng yr ysgolion yn datblygu'n dda, ac yn dod yn ddylanwadol mewn nifer o ffyrdd. Mae'r rhain yn cynnwys cynllunio ar y cyd, ymagweddau cyson at ddiogelu disgyblion ac ymagweddau cyffredin at reolaeth ariannol. Mae'r diwylliant o rannu, sy'n datblygu, yn fuddiol i staff a disgyblion. Er enghraifft, mae'n sicrhau bod disgyblion yn cael ystod debyg o brofiadau dysgu, ac yn arwain effeithlonrwydd ariannol fel bod digwyddiadau fel ymweliadau addysgol yn hyfyw a fforddiadwy.

Yn ogystal â'r pennaeth, mae uwch aelod o staff ym mhob ysgol. Mae'r aelodau staff hyn yn ymgymryd â rôl dysgwyr arweiniol. Maent yn cymryd cyfrifoldeb o ddydd i ddydd am arwain safleoedd yr ysgol yn absenoldeb y pennaeth. Yn ychwanegol, maent yn arwain ac yn monitro cynllunio'r cwricwlwm ar gyfer parau o grwpiau blwyddyn ar draws y ffederasiwn. Mae hyn yn fuddiol o ran hyrwyddo cydweithio, a meithrin ethos tîm. Fodd bynnag, o ganlyniad i'w ffocws ar arwain grwpiau oedran penodol ar draws y ffederasiwn, mewn gormod o achosion, nid oes gan ddysgwyr arweiniol ddealltwriaeth ddigon cryf o ansawdd y ddarpariaeth na safonau a chynnydd disgyblion yn eu hysgolion eu hunain. Mewn ychydig o achosion, mae dysgwyr arweiniol wedi gwneud cyfraniadau gwerthfawr at fedrau proffesiynol cydweithwyr, er enghraifft trwy sicrhau defnydd cyson o broffil y cyfnod sylfaen pan fydd disgyblion yn ymuno â phob ysgol, a thrwy godi proffil y Gymraeg ar draws y ffederasiwn.

Mae arweinwyr yr ysgol yn casglu cryn dipyn o wybodaeth am gynnydd disgyblion mewn system olrhain electronig. Mae'r pennaeth yn defnyddio hyn a gwybodaeth arall, er enghraifft tystiolaeth o deithiau dysgu, i nodi ychydig o feysydd priodol i'w gwella ar draws y ffederasiwn. Mae'r rhain yn cynnwys yr angen i wella medrau Cymraeg disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r pennaeth a'r dysgwyr arweiniol yn ystyried tystiolaeth uniongyrchol arall yn ddigon da bob amser, fel ystod ac ansawdd y gwaith yn llyfrau disgyblion ac mewn gwersi wrth werthuso darpariaeth a safonau. O ganlyniad, nid yw arweinwyr bob amser yn nodi diffygion pwysig yn natblygiad medrau disgyblion na chyfleoedd i wella addysgu a phrofiadau dysgu yn ddigon da. Dros gyfnod, nid yw arweinwyr wedi gwneud defnydd digon da o enghreifftiau o addysgu a dysgu hynod effeithiol sy'n bodoli o fewn y ffederasiwn i wella arfer broffesiynol, a chodi safonau. At ei gilydd, nid oes gan y ffederasiwn strategaeth glir i wella'r addysgu ym mhob ysgol. Mae hyn yn cyfyngu ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion.

Caiff darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig ei chydlynu'n effeithiol. Mae gan bob ysgol arweinydd effeithiol ar gyfer darpariaeth anghenion addysgol arbennig. Maent wedi datblygu diwylliant cryf o rannu arfer, adnoddau a chyngor ymarferol. Mae athrawon a staff cymorth yn elwa'n dda ar hyn, ac mae'n sicrhau bod disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd da. Mae cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer cynorthwywyr addysgu yn fuddiol. Maent yn sicrhau bod gan yr aelodau staff hyn y medrau i gynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd trwy ystod o strategaethau ymyrraeth defnyddiol. Mae hyn yn hynod werthfawr o ran ymestyn y ddarpariaeth anogaeth ar gyfer disgyblion.

Mae llywodraethwyr yn ceisio darparu addysg o safon uchel yng Nghwm Afan Uchaf. Maent yn darparu cymorth a her briodol ar gyfer arweinwyr y ffederasiwn, er enghraifft o ran dyrannu cyllid o'r gyllideb i bob un o'r ysgolion. Maent yn gwybod beth yw blaenoriaethau'r ffederasiwn ar gyfer gwella ac mae ganddynt brosesau

addas ar waith i fonitro cynnydd tuag at y nodau hyn.  Er enghraifft, mae llywodraethwyr yn edrych ar waith disgyblion ac yn cymryd rhan mewn teithiau dysgu.  Maent yn cyfrannu'n briodol at y diwylliant cydweithio sy'n datblygu, er enghraifft trwy gynorthwyo'r ffederasiwn i ddatblygu polisïau a phrosesau ar y cyd ar gyfer diogelu.

Mae arweinwyr yr ysgol yn dyrannu cyllid yn briodol i gefnogi gwelliant yr ysgol. Gwnânt ddefnydd addas o gyllid ychwanegol o'r grant datblygu disgyblion i ariannu staff a rhaglenni ymyrraeth i wella lles a medrau sylfaenol disgyblion.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle y bo'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth, ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle y bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/03/2020